

Rhyfedd o fyd – gwario ar feysydd awyr a CO₂ ar gynnydd!

Yr Athro Gareth Wyn Jones yn dadlau yn erbyn creu maes lanio newydd yn Heathrow...

CLYWAIS, ar y radio, Boris Johnson a chyfaill yn trafod meysydd awyr Llundain. Un, sef Boris, o blaid maes cwbl newydd yn aber afon Tafwys – ‘*Boris Island*’ – a’r llall am ehangu Heathrow.

Roedd y ddau yn rhagweld galw am o leia’ ddwy ‘*runway*’ newydd ger Llundain i gyfarfod â’r galw cynyddol. Teimlai’r ddau bod y ddarpariaeth yn hanfodol i economi Llundain ac er mwyn i’r ddinas gadw ei statws yn un o brif ganolfannau cyfalafiaeth ryngwladol.

Soniwyd am broblemau posib gyda’r adar yn yr aber a’r sŵn yng ngorllewin Llundain ond dim mwy na hynny. Yn ôl Llywodraeth Prydain, y disgwyl yw y bydd rhif y teithwyr yn dyblu erbyn canol y ganrif ac mae Cwmni Airbus yn rhagweld galw byd-eang am 28,200 o awyrennau newydd erbyn yr un cyfnod.

Bron i’r diwrnod cafwyd y cadarnhad brawychus fod lefel CO₂ yn yr awyr bellach wedi cyrraedd 400 ppm [rhan y miliwn] o’i gymharu â llai na 280 ppm cyn y Chwyldro Diwydiannol.

CO₂ O LOSGI TANWYDD YN DAL I GODI’N GYFLYM

Doedd lefelau tebyg ddim wedi eu cyrraedd ers o leiaf 800,000 flynyddoedd, efallai ers mwy na biliwn o flynyddodd, ac, yn bendant, dyma’r tro cynta’ i ddyn greu’r fath sefyllfa.

Yn anffodus, er yr holl drafod rhyngwladol a’r cynadleddau di-ri, yn ogystal â dal i godi, mae twf y lefelau’n gynt nag y bu – cynnydd o bron i dair rhan y miliwn y flwyddyn.

Cefnogi’r darlun yna y mae’r amcangyfrifon o’r CO₂ sy’n dod o losgi tanwydd – mae hynny hefyd yn dal i godi’n gyflym, mwy na 3% y flyddyn. Mae hynny’n golygu dyblu o fewn 23 mlynedd.

Ar ôl ystyried yr holl nwyon tŷ gwydr mae’r cyfanswm ddwywaith a hanner yn fwy na’r hyn y dylai fod. O ystyried, poblogaeth o 9-10 biliwn, mae’r lefel tua phum tunnell o CO₂ y pen bob blwyddyn pan ddylai fod tua dwy dunnell y pen.

Er nad yw hedfan yn gyfrifol am ganran uchel iawn o’r holl nwyon tŷ gwydr sy’n cael eu gollwg ar hyn o bryd, mae’r cyfraniad yn tyfu ac, erbyn 2050, yn ôl yr Adran Drafnidiaeth yn Llundain, mae’n bosib y bydd ei gyfraniad yn chwarter y cyfanswm derbyniol ar gyfer yr holl nwyon o’r byd i gyd.

Mae’r awdur Meyer Hillman yn dweud mewn llyfr o’r enw **How we can save the planet** bod taith unigol mewn awyren, dyweder o Fanceinion i Madrid ac yn ôl, ‘werth’ tua thunnell o CO₂.

Felly be ydi ein dewisiadau? Defnyddio tanwydd newydd, adnewyddol? Cyfyngu hedfan i ddim ond teithiau anghenrheidiol? Gwahardd teithiau awyr o dan ddwy awr a gorfodi teithwr i fynd ar drenau? Penderfynu ei bod yn well gynnon ni hedfan na bwyta cig ac yfed llaeth? Neu, wrth gwrs, ddiodef y canlyniadau?

‘YNYS BORIS’ I DDIFLANNU I’R MÔR

Rhyfedd ac anghyfrifol fyddai gwario biliynnau ar greu adnoddau mewn meysydd awyr, a’r rheiny heb fod yn dod i fod tan tua 2025 - pan fydd y problemau newid hinsawdd yn brathu. Anodd credu nad yw Boris Benfelyn yn gwbl ymwybodol o hyn oll.

A fuasech yn fodlon gyrru eich plentyn ar daith mewn awyren neu long ofod petai’r gwyddonwyr a thechnegwyr mwya’ gwybodus yn eich rhybyddio bod yr awyren yn debyg o or dwymo a mynd i drafferthion mawr?

Wrth gwrs, mae yna ambell un, megis y ddau Nigel - Farage a Lawson - heb arbenigedd yn y maes, yn eich hudo i anwybyddu’r peryg. Ond dw i’n credu y byddai pob rhiant cyfrifol, gan gynnwys Boris J, yn pwylo ac yn rhoi buddiannau eu plant yn gynta’. Yr awyren, wrth gwrs, yw’r Ddaear.

Ac un eironi terfynol. Petai’r datblygiad yn digwydd, fe allai gyfrannu at ei ddifancoll ei hun, ac Ynys Boris, fel Cantre’r Gwaelod, yn diflannu dan y dŵr mewn rhyw ganrif am fod lefel y môr wedi codi.

[Mai 23, 2013]